



PAID SEFYLL O'R NEILLTU

DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST 2016

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD

Mae'r adnodd hwn yn llawn syniadau, pobl ac astudiaethau achos i'ch ysbrydoli chi, eich myfyrwyr, eich cynulleidfa - unrhyw un mewn gwirionedd - i weithredu a pheidio â sefyll o'r neilltu. Bydd y gweithgareddau i gyd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn ategu ei gilydd, ond mae croeso i chi ganolbwyntio ar un maes yn unig hefyd.

Mae 27 Ionawr yn ddiwrnod i ni i gyd gofio am y miliynau a lofruddiwyd yn [yr Holocost](#), o dan [Erledigaeth y Natsïaid](#) ac mewn achosion diweddarach o hil-laddiad yng [Nghambodia](#), [Rwanda](#), [Bosnia](#), a [Darfur](#). Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, rydym ni'n anrhydeddu'r rhai wnaeth oroesi'r erchyllterau hyn ac yn dysgu gan eu profiadau er mwyn herio casineb a gwahaniaethu yn y DU heddiw. Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2016 rydym ni'n gofyn i chi a'ch cynulleidfa ystyried y thema '**Peidio â Sefyll o'r Neilltu**', a hynny o safbwynt hanesyddol ac o ran edrych ar beth allwch chi ei wneud yn awr i beidio â sefyll o'r neilltu.

HANES

I gael gwybod mwy am bobl a wrthododd sefyll o'r neilltu yn ystod yr Holocost, trowch at ein hadnodd ar wahân - hmd.org.uk/didntstandby

Yn ystod yr Holocost, Erledigaeth y Natsïaid a'r achosion o hil-laddiad ers hynny yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur, mae enghreifftiau di-ri o bobl a wrthododd sefyll o'r neilltu, ac a gamodd ymlaen i helpu'r rhai a oedd yn cael eu herlid. Fe wnaeth y bobl hyn guddio pobl a oedd mewn perygl o gael eu herlid, eu hachub nhw, creu dogfennau ffug ar eu cyfer, eu smyglo allan o'r getos, eu helpu i groesi ffiniau, a thrwy hynny, helpu i achub cannoedd o fywydau. Mae'r Yad Vashem Holocaust Martyrs' and Heroes' Remembrance Authority, yn Israel, wedi anrhydeddu 25,685 o bobl â'r teitl 'Righteous Among the Nations' am y cymorth a roddon nhw i Iddewon yn ystod yr Holocost. Roedd 21 o'r bobl hyn yn dod o'r Deyrnas Unedig. Gwrthododd eraill sefyll o'r neilltu, gan ymladd yn erbyn y tramgwyddwyr, dosbarthu pamffledi anghyfreithlon, difrodi rheilffyrdd ac arfau, hynny yw, gwneud unrhyw beth o fewn eu gallu i atal y tramgwyddwyr rhag cyflawni'r hil-laddiad oedd ganddyn nhw mewn golwg.

Er bod pob un o'r bobl hyn yn ysbrydoliaeth, ac yn dangos y natur ddynol ar ei gorau, roedd mwy o lawer o bobl wedi dewis sefyll o'r neilltu, heb godi bys bach. Ni allwn ni ond dyfalu beth allai fod wedi digwydd pe bai rhagor o bobl wedi gweithredu a herio'r rhai a oedd yn cyflawni hil-laddiad. Allwn ni i gyd ddim bod yn arwyr yn wyneb adfyd a thrasiedi, ond gall pob un ohonom ni geisio gwneud rhywbeth i wneud gwahaniaeth, peidio â sefyll o'r neilltu, wrth i'n cyd-ddyn ddiodef.

Er nad ydym ni'n wynebu hil-laddiad yn y DU heddiw, mae gennym ni gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol os oes yna risg o hil-laddiad yn rhywle arall yn y byd, ac i herio troseddau casineb ac erledigaeth yma yn y DU.

Rydym ni'n gobeithio y bydd yr adnodd hwn yn eich ysbrydoli, gan awgrymu sut gallwn ni i gyd ddewis peidio â sefyll o'r neilltu yn wyneb hil-laddiad, anwybodaeth, anghyfiawnder a rhagfarn.

YMGYRCH

Ysbrydolwch eich myfyrwyr, grŵp, cynulleidfa, teulu, ffrindiau a chydweithwyr i greu eu hymgyrch eu hunain. Os gallwch chi dreulio llawer o amser yn cynllunio'ch ymgyrch, mae gennych gyfle gwych i greu rhywbeth eithriadol. Os nad oes gennych chi ymgyrch neu achos mewn golwg, gallwch fynd ati i gynllunio sut i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Cofio'r Holocaust ac annog eraill i beidio â sefyll o'r neilltu. Dyma ambell syniad ac awgrym i'ch rhoi chi ar ben ffordd:

- Meddyliwch am beth rydych chi eisiau ymgyrchu drosto – ydych chi eisiau newid rhywbeth neu ydych chi am ddiogelu rhywbeth?
- Meddyliwch am ymgyrchoedd llwyddiannus i ysbrydoli'ch cynulleidfa. Pam wnaeth yr ymgyrch lwyddo? Beth sydd ei angen arnoch i wneud ymgyrch yn un lwyddiannus?
- Beth sydd angen i chi ei wneud i ddechrau'ch ymgyrch?

Meddyliwch am sut gallech chi ehangu'ch ymgyrch – defnyddiwch y daflen weithgareddau hon i gael rhagor o syniadau; allech chi wneud yn siŵr eich bod chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwneud ffilm ar gyfer yr ymgyrch, allech chi ddefnyddio gweithredu trwy grefft - *craftivism* – yn eich ymgyrch – creu posteri ar gyfer yr ymgyrch, er enghraifft?

Pan welodd disgyblion Ysgol Hampton ymchwil Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust sy'n dangos nad yw 80% o bobl ifanc yn gwybod unrhyw beth am achosion o hil-laddiad ers yr Holocaust, roedden nhw'n benderfynol o beidio â sefyll o'r neilltu. Aethon nhw ati i greu eu hymgyrch eu hunain i newid yr ystadegyn hwn. Fe drefnon nhw ddigwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer 10 ysgol leol a 350 o bobl yn eu cymuned. Fe ysgrifennon nhw adroddiad am y digwyddiad, a ymddangosodd ar wefan y BBC. Ers hynny, mae'r grŵp wedi ysgrifennu llyfr am hil-laddiad yn Rwanda a fydd yn cael ei anfon i fwy na 300 o ysgolion.



Gallwch ddarllen mwy am eu hymgyrch drwy chwilio am @genocide8020 neu #genocideknowmore



CYNNAL DIGWYDDIAD DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST

Yn ogystal â chynnal digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocaust mwy traddodiadol (a gallwch gael cyngor ar sut i wneud hynny drwy fynd i: hmd.org.uk/organiseanactivity), beth am ystyried rhywbeth ychydig yn wahanol?

- Stomp, lle mae pobl yn cyfansoddi ac yn darllen barddoniaeth maen nhw wedi'i chyfansoddi am beidio â sefyll o'r neilltu.
- Noson farddoniaeth, lle mae pobl, yn hytrach na darllen eu barddoniaeth eu hunain, yn darllen cerddi gan ddiodefwyr neu oroeswyr yr Holocaust, Erledigaeth y Natsiaid, un o'r achosion diweddarach o hil-laddiad neu droseddau casineb cyfoes.
- Noson meic agored, lle mae pobl yn cymryd eu tro i ddarllen geiriau'r rhai a ddiodefodd yn yr Holocaust, o dan Erledigaeth y Natsiaid neu un o'r achosion diweddarach o hil-laddiad.
- Annog pobl sydd â chyfle i siarad gerbron cynulleidfa (er enghraifft, o flaen gwasanaeth, ar ddechrau digwyddiad coffa), cyn iddyn nhw wneud cyhoeddiad, i ddarllen geiriau goroeswr neu ddiodefwr.



CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd effeithiol o sicrhau nad ydych chi'n sefyll o'r neilltu. Manteisiwch ar ddylanwad y cyfryngau cymdeithasol i ddangos eich cefnogaeth i ymgyrch neu fater cymdeithasol sy'n agos at eich calon.

Mwya'n byd o ddilynwyr, 'hoffi' neu ffrindiau sydd gennych chi ar y cyfryngau cymdeithasol, mwya'n byd o bobl fydd yn gweld eich negeseuon pwysig. Os nad ydych chi wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol o'r blaen, hwyrach y byddwch chi am ddechrau trwy adeiladu'ch rhwydwaith: dilynwch ffrindiau, perthnasau, sefydliadau ac unigolion a fydd â diddordeb yn eich achos.



Twitter

- Defnyddiwch Twitter i anfon negeseuon byr i'ch dilynwyr – gallech ymateb i rywbeth rydych chi wedi'i weld neu gallech ddechrau rhywbeth newydd.
- Bathwch hashnod bachog neu defnyddiwch un sy'n bodoli'n barod fel bod pobl yn gallu adnabod a dod o hyd i'ch achos. Os yw'ch achos yn ymwneud yn uniongyrchol â Diwrnod Cofio'r Holocost, defnyddiwch #HMD2016
- Ceisiwch gael cefnogaeth enwogion - mae gan lawer o enwogion ddilynwyr di-ri ar y cyfryngau cymdeithasol. Dilynwch pobl a allai fod â diddordeb yn eich achos, anfonwch neges Twitter uniongyrchol atyn nhw a gofynnwch iddyn nhw ail-drydar eich negeseuon. Os ydyn nhw'n dangos diddordeb, gallech ofyn iddyn nhw roi help llaw mewn ffyrdd eraill.

Facebook

- Rhowch wybodaeth am eich achos ar Facebook i annog eich ffrindiau a'ch teulu i hoffi, ychwanegu sylwadau a rhannu'ch neges gyda'u ffrindiau. Rhannwch ddolenni i wefannau diddorol gan ychwanegu sylwadau personol yn eich neges.
- Rhannwch ddelweddau a ffilmiau gyda'ch ffrindiau. Mae pobl yn fwy tebygol o ymateb i neges sy'n cynnwys llun nag un heb lun.

Y tu hwnt i Twitter a Facebook

- Rhannwch ddelweddau a ffilmiau o weithgareddau'ch ymgyrch ar **Instagram**. Defnyddiwch hashnod eich ymgyrch a pheidiwch ag anghofio tagio **holocaustmemorialdaytrust**
- Lanlwythwch a rhannwch fideo neu ffilm eich ymgyrch ar **YouTube** neu **Vimeo**.
- **Ysgrifennwch flog** i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n cael sylw yn eich ymgyrch. Rhannwch y ddolen i'ch blog ar y cyfryngau cymdeithasol.

#MemoryMakers

Diolch i'n prosiect *Memory Makers* ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2015, cafodd cenhedlaeth newydd glywed hanes goroeswyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gyda chymorth Stephen Fry, llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfa newydd, cafodd hanesion eu rhannu 7,800 o weithiau ar draws y cyfryngau cymdeithasol a chafodd ffilmiau eu gwylid 72,000 o weithiau ar YouTube a Vimeo.



Stephen Fry @stephenfry · Jan 27

Today is Holocaust Memorial Day. Do read and share my #memorymakers piece for @HMD_UK - keepthemoryalive.hmd.org.uk



RETWEETS
1,049

FAVORITES
1,005



CREU

Mae sawl ffordd greadigol y gallwch chi weithredu a pheidio â sefyll o'r neilltu - gallwch wnïo, gwau, peintio, darlunio, pobi, crosio, creu. **Pwysig - dyw bod yn greadigol ddim yn ddigon, rhaid bod yn greadigol ar gyfer achos.**

- Gallech chi greu eitemau unigol er cof am un o ddiodefwyr yr Holocaust neu hil-laddiad diweddarach, fel y gwnaeth Cyngor Dinas Glasgow ac Ysgol Uwchradd Graeme y llynedd.
- Gallech chi gynnal gweithdy, fel y gwnaeth House of Illustration, ac yna fe allech chi greu arddangosfa o'ch crefftau i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw pobl i'ch achos.
- Gallech drefnu prosiect mawr y gall pobl o bob rhan o'ch cymuned gyfrannu ato. Gallai pawb gyfrannu sgwâr at gwilt, er enghraifft, neu ddarn o faner, sy'n cael eu rhoi at ei gilydd i ddangos cynlluniau gwahanol sydd i gyd yn cefnogi'r un achos.
- Beth am fynd â'ch crefftau gam ymhellach a rhoi cynnig ar "craftivism"! Cafodd y term 'craftivism' ei defnyddio gyntaf gan Betsy Greer yn 2003, ac mae'n dweud ei fod yn ffordd o edrych ar fywyd lle mae lleisio barn drwy greadigrwydd yn gwneud eich llais yn gryfach, yn eich gwneud yn fwy trugarog ac yn eich gwneud yn fwy penderfynol o sicrhau cyfiawnder.

Craft + activism = craftivism

Mae gwefan y craftivist-collective yn cynnwys lluo o brosiectau a syniadau ar eich cyfer:

craftivist-collective.com/projects/

Maen nhw'n cynnwys gwneud baner ar gyfer protest, 'stitch-ins', a gwneud byntin.

House of Illustration, Llundain



Nododd House of Illustration Ddiwrnod Cofio'r Holocaust 2015 drwy gynnal gweithdy gwneud posteri ar gyfer disgyblion ysgol gynradd. Yn ôl Emily Jost, y Pennaeth Addysg, mae darlunio'n gallu gweithio'n dda pan fyddwch chi'n ymdrin â phwnc poenus neu anodd, fel pwysigrwydd Ddiwrnod Cofio'r Holocaust.

Stolpersteine, Ysgol Uwchradd Graeme



Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2015, aeth myfyrwyr Ysgol Uwchradd Graeme ati i greu Stolpersteine i sicrhau nad ydym yn anghofio am y bobl a gafodd eu llofruddio yn yr Holocaust. Os hoffech chi wneud rhywbeth tebyg, ewch i: hmd.org.uk/memorialstones

Crosio Blodau, Glasgow

Aeth grwpiau gwau ati i grosio blodau tlws, er cof am ddiodefwyr penodol yr Holocaust, ar gyfer y digwyddiad coffau yng Nghyngor Dinas Glasgow ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2015.



GWNEUD FFILM

Gallech annog eich myfyrwyr neu gynulleidfa i wneud ffilm sy'n rhoi sylw i'w hymgyrch, yn arddangos eu crefft, yn codi ymwybyddiaeth am fater penodol, yn galw ar eu cyfoedion i ymuno â'r ymgyrch neu, yn syml iawn, yn rhannu popeth maen nhw wedi'i wneud ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2016!

Mae'n hawdd creu ffilm ar eich ffôn neu lechen a gallwch ei ddangos mewn gwasanaeth neu ddigwyddiad coffa.

Mae gan **INTO FILM** lu o adnoddau am ddim i helpu plant a phobl ifanc i greu ffilm

intofilm.org/

Dechrau arni:

- Mae INTO FILM yn argymhell cofio'r 3C a'r 3S wrth ddadansoddi clip neu ffilm fer, er mwyn deall hanfodion creu ffilm:
 - Lliw (Colour), Cymeriad (Character), Camera
 - Sain (Sound), Lleoliad (Setting), Stori (Story)
- Mae cynllunio ac ymarfer yn hanfodol er mwyn gallu creu ffilmiau byr, syml, llwyddiannus.
- Defnyddiwch fwrdd stori, grid syml o bump neu chwe bocs, i gynllunio'ch gwaith ffilmio.
 - Beth yw stori neu neges eich ffilm? Beth ydych chi am ei ddweud a
 - Beth ydych chi am i bobl ei wneud o ganlyniad i wyllo'r ffilm?
- Saethwch y ffilm yn y drefn gywir, fel y gallwch chi chwarae'r ffilm heb ei golygu.
- Cyn i chi ffilmio unrhyw beth, dylech ymarfer dal y camera yn y safle cywir a gwneud yn siŵr bod eich llun wedi'i fframio'n dda, wedi'i oleuo'n dda, bod y sain yn glir a bod eich camera'n llonydd. intofilm.org/filmmaking

Gwnaeth Berge Kanikianian ffilm am *Aktion T4*, rhaglen y Natsïaid i geisio llofruddio dinasyddion Almaenig oedd ag anableddau meddyliol neu gorfforol.



'Ro'n i'n awyddus iawn i ddysgu pobl am droseddau casineb a beth mae'r llywodraeth yn ei ddweud am droseddau casineb. Dw i am godi ymwybyddiaeth. Dw i am i lawer o bobl ddeall bod pobl ag anableddau'n gallu cael ansawdd bywyd gwell, rhagor o gyfleoedd a mwy o amser i wneud gwahanol weithgareddau.'

hmd.org.uk/berge



#notsilent

2015 -
70 mlynedd ers
marw Anne
Frank.



Yn hytrach na munud o dawelwch i gofio diwedd bywyd byr Anne Frank, gofynnodd Ymddiriedolaeth Anne Frank i bobl ddarllen darnau o ddyddiadur ysbrydoledig Anne Frank yn uchel am funud.

Yn ystod ein hawr ginio, aeth tîm Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost ati i wneud fideo #notsilent, sydd i'w weld yma:

<https://www.youtube.com/watch?v=bsaQrpP2QQ&feature=youtu.be>

Gallech wneud fideo tebyg i hyrwyddo'ch ymgyrch.



CODI YMWYBYDDIAETH O FATERION CYFOES

Roedd y tair ar y dudalen hon i gyd yn teimlo'n gryf am bwnc llosg ac aethant ati i godi ymwybyddiaeth.

Mae sawl gwahanol ffordd y gallwch chi weithredu – mae rhai ohonyn nhw wedi'u cynnwys yn yr adnodd hwn – gwneud ffilm ar gyfer ymgyrch, gweithredu trwy grefftiau, dechrau ymgyrch ar Twitter, creu gwefan, ysgrifennu erthygl, sefydlu elusen, er enghraifft.

Rydym ni'n gobeithio y bydd y bobl hyn yn eich ysbrydoli i wneud rhywbeth, a pheidio â sefyll o'r neilltu.


Olivia Warham, MBE Cyfarwyddwr Waging Peace



'Dw i wedi bod yn gweithio gyda Waging Peace ers 2007. Sefydliad hawliau dynol ydym ni, a gafodd ei sefydlu i godi ymwybyddiaeth o'r hil-laddiad yn Darfur. Mae fy ngwaith yn cynnwys lobïo ASau a gweithio gyda cheiswyr lloches. Mae'n waith mor amrywiol a diddorol, ond yn bwysicach na dim, mae'n gwneud gwahaniaeth. Ein nod eleni oedd sicrhau na fyddai llywodraeth y DU yn cefnogi'r etholiadau yn Sudan, a gafodd eu cynnal heb unrhyw wrthwynebiad gwleidyddol gwerth sôn amdano, heb unrhyw ryddid i'r wasg ond gyda digon o fygythiadau yn erbyn etholwyr. Roeddem ni ar ben ein digon pan wnaeth y DU ddatgan yn ddiamau nad oedd yr etholiadau'n rhydd ac yn deg. Y llynedd, cefais MBE i gydnabod fy ngwaith – testun balchder mawr i mi ond praf hefyd ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth.'

wagingpeace.info

Laura Bates BEM, Sylfaenydd Everyday Sexism




'Fe ddechreuais i wefan fach, yr Everyday Sexism Project, oherwydd ro'n i wedi cael llond bol ar y rhywiaeth, y gwahaniaethu a'r trais rhywiol mae menywod a merched yn ei wynebu o hyd yn eu bywydau bob dydd, ym mob cwr o'r byd. Roeddwn i am wneud gwahaniaeth drwy roi llwyfan i brofiadau menywod, yn y gobaith o godi ymwybyddiaeth a newid agweddau ac ymddygiad rhagfarnllyd. Fy ngobaith oedd y byddai tua 50 o fenywod yn ychwanegu eu henghreiffiau ond, yn lle hynny, cefais 100,000 o bedwar ban byd. Cafodd y prosiect sylw mewn penawdau newyddion ar draws y byd, o'r *New York Times* i'r *Times of India*, ac roeddwn i'n gallu cymryd cyfraniadau'r menywod a'u defnyddio y tu hwnt i'r wefan i sicrhau newid go iawn, drwy weithio gyda gwleidyddion, yr heddlu, ysgolion, prifysgolion a busnesau.

'Mae'r Everyday Sexism Project yn brawf y gallwn ni wneud gwahaniaeth drwy sefyll fel un - mae ein lleisiau'n gryfach o'u codi gyda'i gilydd.'

everydaysexism.com

Suran Dickson Diversity Role Models



'Yn ystod degawd a mwy yn dysgu mewn ysgolion yn y DU, gwelais sawl achos o fwlio LGBT a chlywais am lawer a oedd wedi lladd eu hunain oherwydd bwlio o'r fath. Y sefyllfa drychinebus hon oedd y sbardun i mi sefydlu'r elusen hon er mwyn newid y ffordd rydym ni'n dysgu pobl ifanc am amrywiaeth. 'Mae ein gweithdai'n cynnig modelau rôl LGBT neu heterorywiol positif sy'n rhannu eu profiadau gyda'r bobl ifanc ac yn ateb eu cwestiynau. Fy nheimplad oedd y byddai defnyddio modelau rôl yn rhoi gobaith i bobl ifanc LGBT y gallan nhw gael bywyd hapus neu lwyddiannus a helpu eu cyfoedion i ddatblygu empathi a'u derbyn am bwy ydyn nhw. Bellach rydym ni wedi gweithio gyda thros 25,000 o ddigsgyblion ac maen nhw'n ysbrydoliaeth heb os, nid yn unig o ran eu hymroddiad i newid eu hymddygiad eu hunain, ond eu hymroddiad i newid ymddygiad pobl eraill hefyd.'

diversityrolemodels.org


GWEITHREDU

Yn y gorffennol mae pobl gyffredin wedi bod yn arwyr drwy achub pobl a oedd yn cael eu herlid, drwy eu cuddio, eu helpu i ddianc, a'u croesawu i'w cartrefi. Mae sawl stori ysbrydoledig am yr arwyr hyn ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocaust. Rhannwch nhw gyda'ch cynulleidfa.

Efallai na fyddwn ni'n gallu bod mor ddewr â hyn, ond mae llawer o bethau bach y gallwn ni eu gwneud sy'n gwneud gwahaniaeth mawr. Dyma ambell syniad.

Darkness to Light

Mewn digwyddiad yng Nghadeirlan Durham i gofio 70 mlynedd ers rhyddhau pobl o Weyll Crynhoi Bergen-Belsen, gofynnwyd i'r gynulleidfa ddod â phâr o esgidiau (mewn cyflwr da) a fyddai'n cael eu rhoi i Oxfam wedi'r digwyddiad.



© David Dudley

Josh Whatsize, Hyrwyddwr Ieuenctid Arweiniol HMDT



'Heb unrhyw gysylltiad teuluol y gwn i amdano â'r Holocaust, yr hyn sy'n fy nghymell i ddysgu mwy am y gorffennol yw'r ffaith fod casineb fel hyn yn parhau i ddiwydd heddiw. **Ar ôl ymweld â Gwlad Pwyl, es ati i rannu'r hanes gyda chymaint o bobl ifanc ag y gallwn i.** Dw i ddim yn meddwl bod pen draw i'r dasg hon, ond bydd bob amser yn hollbwysig yn yr ymdrech i sicrhau dyfodol heb y fath atgasedd.'

hmd.org.uk/joshwhatsize

Sydney a Golda Bourne, Wnaeth ofalu am un o blant y Kindertransport



Achubodd Sydney a Golda Bourne (Baum gynt) fywyd un Almaenes Iddewig drwy gytuno i ofalu amdani o dan y rhaglen *Kindertransport*.

Darllenwch fwy am eu stori yma: hmd.org.uk/bournes

Gwirfoddolwch!

Dewiswch achos sy'n agos at eich calon a rhowch beth o'ch amser iddo – gallech wirfoddoli mewn digwyddiad lleol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, neu yn nigwyddiad coffa cenedlaethol y DU. Gallech roi help llaw mewn lloches i'r digartref, mewn siop elusen, gyda grŵp ieuenctid lleol, mewn cegin gawl...mae'r posibiladau'n ddi-ben-draw. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd lleol drwy'r NCVO ncvo.org.uk Neu ar wefan do-it do-it.org

Peidiwch â Sefyll o'r Neilltu!

Gadewch i'r bobl sydd wedi gwrthod sefyll o'r neilltu, ddoe a heddiw, eich ysbrydoli ac ewch ati i weithredu. Helpwch achos neu ymgyrch sy'n apelio atoch. Dewiswch un weithgaredd, a gwnewch e! Gallai un neges fach at Twitter arwain at rywbeth mawr. **Beth bynnag y gwnewch chi, rhannwch yr hanes gyda ni – gallai'ch stori fod yn ysbrydoliaeth i eraill.**